MEDI A HYDREF 2024

YSGOL PENNAL

# LLEISIAU PENNAL

## CROESO I YSGOL PENNAL

Croeso i'r disgyblion newydd sydd wedi cychwyn yn Ysgol Pennal tymor yma . Mae Efa, Patrick, Meilir ac Isabella wedi cychwyn rhan amser yn y Meithrin. Rydym hefyd yn croesawi Zephyr atom i Flwyddyn 2.

Croeso hefyd i Mr Dafydd Williams, aelod o staff newydd i Ysgol Pennal. Mae Mr Williams yn gymhorthydd yn y ddau ddosbarth, yn Goruchwyliwr Clwb Brecwast ac yn Oruchwyliwr Canol Dydd.



## CYNGOR YSGOL



Ar gychwyn y tymor roedd angen ethol Cyngor Ysgol Pennal. Roedd pawb wedi ysgrifennu araith efo'u syniadau am sut i wella'r ysgol. Darllenodd pawb eu haraith o flaen yr ysgol ac yna roedd angen i ni bleidleisio. Roedd pawb wedi darllen eu haraith yn dda ac wedi meddwl am syniadau da iawn.

Aelodau Cyngor Ysgol 2024-25
Blwyddyn 6 Alexis Gregory
Blwyddyn 5 Jack Windsor Lewis
Blwyddyn 4 Melys Morus Baird
Blwyddyn 3 Angharad Evans
Blwyddyn 2 Amy Turner



## SWYDDOGION IAU DIOGELWCH Y FFORDD

Swyddogion y Ffordd eleni yw Nia Humphreys a Pearl Silvester. Rôl y SIDYFF yw lledaenu negeseuon diogelwch ar y ffyrdd i gymuned yr ysgol trwy:

- rhoi sgyrsiau
- cynnal cystadlaethau
- rhoi posteri i fyny
- defnyddio syniadau eich hunain i ledaenu'r neges

# GWAITH THEMA 'MOR A LLYGREDD







Wythnos diwethaf aeth plant mawr Corris a Pennal i Aberdyfi am y diwrnod. Yn y bore daeth Dawn i gyfarfod ni o 'North Wales Wildlife Trust' i ddysgu am wyau siarcod. Ffeindiodd Melys wy siarc ar lan y môr. Roedd yn gyffrous iawn! Ar ôl cael bwyta ein bocsys bwyd yn yr Orsaf Dan, aethom ati i gasglu sbwriel. Daethom o hyd i bob math o bethau, yn cynnwys lobster pot a fflip fflop!! Cawsom lawer o hwyl, ac rydym yn mwynhau dysgu am sut fedrwn helpu lleihau sbwriel sy'n cyrraedd y môr.
Diolch yn fawr i Dawn ac i Orsaf Dan Aberdyfi am adael i ni ddefnyddio'u cyfleusterau yn ystod y dydd.
Tau ac Iestyn (Blwyddyn 3 a 4)

# PARCHU'R MOR

Rydym ni'n dysgu mwy am barch ar hyn o bryd, yn enwedig sut mae ei ddangos. Parch ydi bod yn garedig ac yn gwrtais, at eiddo, at eraill ac atat ti dy hun. Parchu'r môr ydi thema ein gwasanaeth Diolchgarwch ni y tro yma.
Ysgrifennwyd gan Arrow, Llewyn, Ayda, Emilia a Silyn (Dosbarth 3-7oed)



# PENNAL 2050 FRESH WATER WATCH



Aeth plant mawr Pennal efo Heather a Mr Rhys Parry at ymyl yr Afon Sychan i weld os mae'n iach neu beidio. Yn gyntaf, cawsom ni clip fwrdd a thaflen i ni weld ac ysgrifennu beth oedd yn tyfu o amgylch yr Afon. Yn ail casglodd Mr Parry sampl dwr o'r afon i ni weld os mae'n iach neu beidio. Rydym ni wedi arbrofi lefelau Nitrad a ffosffad yn y dŵr. Rydym ni wedi darganfod bod yr Afon yn iach gyda lefelau isel o'r ddau. Cafodd y sampl dwr ei anfon i labordy yn Llundain a'i ychwanegu i ddata 'Fresh Water Watch'. Diolch yn fawr i Heather a Mr Rhys Parry am gynnwys ni yn eu hymchwil. Cyflwynwyd llyfr 'Partneriaeth Pennal' i'r ysgol.

Ysgrifennwyd gan Harry Blwyddyn 3






# DIWRNOD SHWMAE SU'MAE


Ar Ddiwrnod Shwmae Su'mae daeth plant a staff yr ysgol yn gwisgo dillad Cymru neu dillad coch i ddathlu'r diwrnod.

Cawsom llawer o hwyl yn siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a trafod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg.

# SIOP FFRWYTHAU A LLYSIAU

Ar ddechrau'r tymor bum yn garddio gyda Mrs Jones ac yn gwerthu ein cynnyrch wrth giatiau'r ysgol.

DIolch am ein cefnogi yn prynu'r cynnyrch. Mae'r arian yn mynd i brynu hadau a planhigion ar gyfer plannu rhagor o gynnyrch,



**MEDI A HYDREF 2024**

# YSGOL PENNAL

## CLWB YR URDD

Mae ein clwb Urdd wedi bod yn un prysur ar gyfer Blwyddyn 2-6. Chwarae gemau gwrando ar y buarth efo Mrs Miriam Jones a bingo efo Mrs Lockett oherwydd y glaw. Diolch yn fawr iawn hefyd i Marged Gwenllian, un o ffrindiau Mr Urdd sy'n gweithio'n Glan Llyn am ddod yr holl ffordd i Ysgol Pennal i'n dysgu ni chwarae ukelele. Roedd jamio efo ffrindiau yn teimlo'n ffantastig!

Ysgrifennwyd gan Riley, Amy a Jack Norman (Dosbarth 3-7 oed)



## HER SGIPIO NODDEDIG

Mae disgyblion dosbarth 7-11 oed wedi bod yn sgipio'n ddyddiol yn ystod y mis diwethaf i godi arian i 'Casglwyr Sbwriel Aberdyfi'.

Mae sgiliau sgipio y disgyblion wedi gwella yn ystod y mis a pawb yn mwynhau'r her gan gynnwys Mrs Jones!





## GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni yn Eglwys Pennal.

Parchu'r môr oedd thema ein gwasanaeth Diolchgarwch ni y tro yma. 'Da ni'n siarad, canu, rapio ac yn arbrofi efo chwarae gwahanol offerynnau er mwyn diolch i bawb am ailgylchu yn lle taflu 'sbwriel i'r môr. Casglwyd eitemau ar gyfer preswylwyr hyn y pentref yn ystod y Gwasanaeth.

Ysgrifennwyd gan Arrow, Llewyn, Ayda, Emilia a Silyn (Dosbarth 3-7oed)




## TESCO


Mae Ysgol Pennal yn rhan o gasliad TESCO unwaith eto ar gyfer codi arian i'r ysgol.

# GWEITHDAI EGINIAD



Mae gweithdy Eginiad wedi dod yn ôl i weithio efo ni eleni. Mae'n nhw'n dod i weld ni pob Dydd Mercher am hyd at chwe wythnos. Wythnos diwethaf rydym ni wedi dysgu am sut i anadlu yn effeithiol. Galwodd Jess hyn yn "bubble breath". I wneud "bubble breath" mae angen smalio eich bod yn casglu blodau, arogli'r blodau ac yna chwythu swigen fawr. Mae hyn yn gwneud yn siŵr eich bod yn cymryd anadl dofn ac yn chwythu allan yn esmwyth. Mae "bubble breath" yn anadl i helpu ti os ti yn drist, blin neu o dan straen. Mae o'n helpu lot os ti'n anadlu fel yma.
Rydym ni hefyd wedi gwneud sesiwn Ioga anifeiliaid. Roedd yr ioga yn hwyl ac ymlaciol. Rydym yn edrych ymlaen am ymweliadau nesaf Eginiad yn barod!
Ysgrifennwyd gan Talitiu (Blwyddyn 5)

# BORE COFFI MACMILLAN



Trefnwyd Bore coffi MacMillan gan y Cyngor Ysgol. Coginiodd dosbarth plant mawr 'Rocky roads' a choginiodd y dosbarth plant bach cacennau crispi. Cafodd pawb cacen flasus a codwyd £85.50 ar gyfer elusen MacMillan. Da iawn pawb!
Ysgrifennwyd gan Angharad Blwyddyn 3



Dyma ni'n gwneud cacennau ar gyfer ein Bore Coffi Macmillan. 'Cacen Cer O 'Ma Canser' oedd ein syniad ni flwyddyn yma yn Nosbarth 3-7oed. Ar ôl dilyn cyfarwyddiadau i wneud cacennau reis crisbis siocled, cawsom ddod a'n cacen ni ein hun yn fyw efo app ChatterPix ar yr ipad. 'Cer o 'ma canser! Cer, cer, cer! Dos, dos, dos! Cau y drws ar ganser' oedd neges ein cacennau ni. Mae pawb yn Ysgol Pennal wedi deall pam fod y Cyngor Ysgol yn trefnu bore coffi Macmillan i gasglu arian i helpu doctoriaid a gwyddonwyr i wella pobl sydd yn sâl efo canser. 'Da ni'n hapus i helpu ac mae Gwdihw Gwybodus Ac Eglwyddorol Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas Corris ac Ysgol Pennal yn hapus iawn efo ni.
Ysgrifennwyd gan Robin, Zephyr a Harry (Blwyddyn 2)

## MEDI A HYDREF 2024

# YSGOL PENNAL

## PEL DROED YR URDD




Aeth tim o Flwyddyn 5 a 6 Ffederasiwn Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas i gymryd rhan yn Nhwrnament pel droed yr Urdd yn y Bala eleni. Er mai criw bach sydd yn y ddwy ysgol, roedd pob un wedi ymdrechu ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

## CYMORTH CYNTAF ST JOHN



Daeth Sophie i wneud Cymorth Cyntaf gyda phlant mawr Ysgol Pennal. Dangosodd Sophie sut i roi person mewn "Recovery position", sut i helpu rhywun sy'n tagu a gwneud CPR.
Dangosodd Sophie sut i roi person mewn "Recovery Position" arna i! Rydym wedi gwisgo fest tagu ac wedi helpu drwy daro 5 gwaith rhwng ysgwyddau ar y cefn, a 5 gwaith ar y bol. I wneud CPR, mae angen gwasgu 30 gwaith ar y frest gan ddefnyddio rhythm tri chan- Star wars, Baby Shark neu Staying alive. Diolch Sophie am ddysgu pethau pwysig i ni.
Ysgrifennwyd gan Cali Blwyddyn 5



## DIWRNOD IECHYD MEDDWL Y BYD

Yn ystod Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd cynhaliwyd gweithgareddau yn ystod y dydd oedd yn ymwneud a Iechyd Meddwl.
Rydym wedi bod yn gwneud cacennau melyn hapus, gemau balwn hapus, helfa drysor a gwneud hufen ia hapus.
Ysgrifennwyd gan Llewyn a Silyn Blwyddyn 1



